Ken Skates AC
Gweinidog dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd

16 Mawrth 2020.

Annwyl Ken,

Covid-19

Mae'n amlwg mae'r sefyllfa bresennol yn un anodd i'r genedl gyfan. Mae S4C yn gallu gweld rôl allweddol i'w hun fel mae pobl yn hunan ynysu yn fwy wrth i ni gynnig rhaglenni newyddion ychwanegol ar ben ein gwasanaeth arferol. Rydym eisoes wedi cynnig darlledu rhaglenni ychwanegol os orfodir cau'r ysgolion.

Pwrpas y llythyr yma yw dwyn sylw at yr effaith mae'r argyfwng yn cael ar gwmnïau llai a gweithwyr llaw rydd ar draws y wlad. Rwyf wedi cwrdd â sawl unigolyn a chwmni sydd wedi colli gwaith am wythnosau a misoedd i ddod. Mi fydd y golled ariannol yn achosi llawer o'r cwmnïau yma i gau neu i golli gweithwyr. Rwy'n sicr fod hyn yn wir ar draws sawl sector.

Mae gan Lywodraeth Cymru hanes o raglenni arloesol i gynnig atebion i heriau'r economi, yn cynnwys Jobs Growth Wales, React ac Adapt. A oes cynlluniau i gynnig rhywbeth tybed i'r cwmnïau a'r unigolion a geith eu heffeithio y tro ma?

Byddwn yn falch o'r cyfle i gwrdd ar frys er mwyn trafod hyn ymhellach ac i gynnig cymorth gyda rhaglen o'r math yma.

Yn gywir

Owen Evans
Prif Weithredwr.

Mae croeso i chi gysylltu ag S4C yn y Gymraeg, ac os byddwch chi'n gwneud hynny byddwn yn ateb yn y Gymraeg ac ni fydd oedi oherwydd hynny.
You are welcome to contact S4C in Welsh, and if you do so we will respond in Welsh and this will not lead to any delays.

Sianel Pedwar Cymru
Canolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin Carmarthen, Cymru Wales, SA31 3EQ Ffôn Phone 03305 880 402 s4c@s4c.cymru
s4c.cymru